

Aseiniad ECAD6007 2023/24

Aseiniad ysgrifenedig. Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf sy'n canolbwyntio ar astudiaeth achos o ddysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, yn seiliedig ar ddigwyddiad critigol a arsylwyd (cyfwerth â 4000 o eiriau).

Adran	Nifer geiriau a awgrymir (cyfanswm o 4000)
Nod, ffocws a dealltwriaeth o ddigwyddiad critigol. Beth yw nod y traethawd? Beth yw eich dealltwriaeth o ddigwyddiad critigol? Beth yw'r digwyddiad critigol y sylwoch chi arno? Nodwch yn fyr y cyd-destun dosbarth y mae'r traethawd wedi'i seilio arno. (Er enghraifft, nid oes angen rhoi manylion am ganran y disgyblion ag ADY / cymhwysedd PYDd os nad yw hyn yn effeithio ar eich digwyddiad critigol). Nodwch yn fyr gyd-destun y dosbarth y cynhaliwyd eich arsylwad ynddo a'ch gwybodaeth am ddamcaniaeth dysgu a sut mae'r ddamcaniaeth yn berthnasol i ymarfer. Beth yn union yw eich digwyddiad critigol?	400
Trosolwg o lenyddiaeth berthnasol. Dylai'r adran hon fod yn seiliedig ar eich digwyddiad critigol. Dylai gynnwys trafodaeth ar lenyddiaeth sy'n ymwneud â'ch digwyddiad critigol. Cofiwch: • Grynhoi a syntheseiddio: rhoi trosolwg o brif bwyntiau pob ffynhonnell a'u cyfuno'n gyfanwaith cydlynol; • Ddadansoddi a dehongli: peidiwch ag aralleirio ymchwilwyr eraill yn unig. Os yn bosibl, trafodwch arwyddocâd y canfyddiadau mewn perthynas â'r llenyddiaeth yn ei chyfanrwydd; • Werthuso yn feirniadol: soniwch am gryfderau a gwendidau eich ffynonellau, ystyriwch yr awdur(on) a'u harbenigedd; • Ysgrifennu mewn paragraffau wedi'u strwythuro'n dda: defnyddiwch trawsnewidiadau a brawddegau testun i lunio cysylltiadau, cymariaethau a chyferbyniadau. Beth yw perthnasedd y llenyddiaeth hon i'ch barn am y digwyddiad critigol? Sut mae'r llenyddiaeth hon wedi'ch arwain at nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf?	1000
Eglurhad o'r Astudiaeth Achos	800

Beth yw Astudiaeth Achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr yn seiliedig ar eich arsylwi? Rhowch ddisgrifiad clir o'r digwyddiad a sut mae'n berthnasol i lenyddiaeth briodol.	
Dulliau Addysgu a Dysgu Ysgrifennwch am y dulliau addysgu a dysgu y byddech chi'n dewis eu mabwysiadu i fynd i'r afael â'r digwyddiad critigol. Ar gyfer pob dull, trafodwch y pwyntiau hyn: - Beth mae'r llenyddiaeth yn dweud wrthym? - Beth yw cryfderau a chyfyngiadau'r dull? - Sut y byddai hyn yn effeithio ar ddilyniant y disgybl? - Cyfeiriwch yn ôl at y llenyddiaeth lle bynnag y bo modd. Cofiwch roi sail resymegol glir ar gyfer eich dewisiadau addysgu a dysgu mewn perthynas â'r astudiaeth achos benodol	800
Trafodaeth Bydd cynnwys yr adran hon yn dibynnu ar y digwyddiad critigol yr ydych wedi sylwi arno. Unwaith y byddwch wedi cyflwyno'r astudiaeth achos a'i thrafod, dylech ystyried: - Beth mae eich canfyddiadau yn ei olygu i'ch dewisiadau addysgegol eich hun? - Beth wnaethoch chi ei ddarganfod? - Beth mae hynny'n ei olygu i'm dosbarth/y cyfranogwyr/yr ysgol? - Sut mae hyn yn cysylltu â llenyddiaeth?	600
Casgliadau Archwiliwch yn feirniadol y gwaith a wnaethoch wrth baratoi ar gyfer eich astudiaeth achos; er enghraifft: - A fyddai'r dulliau addysgu a dysgu pedagogeg yn cael effaith o fewn y cyd-destun a pham? - Pa mor ddilys fyddai'r dulliau a sut ydych chi'n gwybod? - Sut mae eich dealltwriaeth o fethodoleg digwyddiadau critigol wedi effeithio ar eich dealltwriaeth o ddamcaniaethau dysgu a datblygiad plant a sut bydd hyn yn effeithio ar eich ymarfer mewn ysgolion ar lefel ymarferol? - Sut gallai hyn gysylltu â'r Safonau Proffesiynol? (Gallech gyfuno'r casgliadau â'r adran argymhellion os yw'n well gennych)	200
Argymhellion Pa argymhellion fydddech chi'n eu gwneud yn sgil eich astudiaeth achos? A oes ymyrraeth yr hoffech ei roi ar waith i fynd i'r afael â mater yr ydych wedi'i ganfod? Sut allwch chi fynd â'ch canfyddiadau ymlaen i'ch ymarfer addysgu?	200

Rhestr gyfeirio

Dylech anelu at ysgrifennu'r rhan fwyaf neu'r cyfan o'ch traethawd yn y trydydd person ac yn y llais goddefol.

Wrth fyfyrio ar eich ymarfer neu'ch profiad eich hun neu wrth egluro'r rhesymeg dros eich dewisiadau o ran, er enghraifft, eich methodolegau addysgu a dysgu neu addysgeg, gallwch ysgrifennu yn y person cyntaf os byddai'n well gennych wneud hynny.

Dylid ysgrifennu'r traethawd yn yr amser gorffennol.

DS. Gofalwch nad ydych yn llên-ladrad eich gwaith eich hun o aseiniadau eraill. Os penderfynwch gyfeirio at awduron yr ydych wedi ysgrifennu amdanynt yn flaenorol mewn aseiniad arall, bydd angen i chi aralleirio eich geiriau eich hun i sicrhau nad ydych yn hunan-lên-ladrad.